

## CANOLFAN ADDYSG Y BONT

### POLISI AMDDIFFYN PLANT



Mae Canolfan Addysg y Bont yn cydnabod llawn ei chyfrifoldebau tuag at amddiffyn plant yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Mae ein polisi yn berthnasol i'r holl staff, llywodraethwyr ac i wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant.

Mae pum prif elfen i'n polisi:

- Sicrhau ein bod yn gweithredu arferion recriwtio diogel trwy wirio addasrwydd staff a gwirfoddolwyr i weithio gyda phlant.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion amddiffyn plant ac arfogi plant gyda'r sgiliau sydd angen i'w cadw yn ddiogel.
- Datblygu a gweithredu gweithdrefnau i adnabod a chyfeirio achosion neu bryder am gamdriniaeth.
- Cynnal disgyblion sydd wedi eu cam-drin yn unol â'u cynllun amddiffyn cytunedig.
- Sefydlu amgylchedd diogel lle'r gal disgyblion ddysgu a datblygu.

Yr ydym yn cydnabod bod staff ysgol, oherwydd eu cyswllt beunyddiol gyda disgyblion, mewn sefyllfa dda i arsylwi ar arwyddion allanol camdriniaeth. Bydd yr ysgol felly:

- yn sefydlu a chynnal amgylchedd lle y gall disgyblion deimlo'n ddiogel, lle yr anogir hwy i fynegi eu hunain, a lle y gwrandewir arnynt.
- yn sicrhau bod y disgyblion yn gwybod bod yna oedolion yn yr ysgol y gallant droi atynt os ydynt yn poeni.
- yn cynnwys cyfleoedd yn y cwricwlwm i ddisgyblion datblygu'r sgiliau sydd angen arnynt i adnabod a chadw yn ddiogel rhag cam driniaeth.

Bydd yr ysgol yn dilyn y gweithdrefnau sydd wedi eu gosod yn y ddogfen "Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan", sydd wedi eu mabwysiadu gan y Pwyllgor Amddiffyn Plant Sirol, ac yn talu sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn:

- sicrhau bod gennym athro/athrawes ddynodedig amddiffyn plant sydd wedi derbyn hyfforddiant a chynhaliaeth. (Mr Andreas Huws - Pennaeth).
- sicrhau bod gennym lywodraethwr enwebedig ar gyfer amddiffyn plant. Mrs. Eileen Clarke.
- sicrhau bod pob aelod o aelod o staff, pob llywodraethwr a phob gwirfoddolwr yn gwybod enw'r athro/athrawes ddynodedig amddiffyn plant.
- sicrhau bod holl staff a gwirfoddolwyr yn deall eu cyfrifoldeb trwy fod yn effro i arwyddion o gam driniaeth a'r cyfrifoldeb arnynt i gyfeirio pryderon i'r athro/athrawes ddynodedig amddiffyn plant.
- cydnabod hawl pob aelod o staff a gwirfoddolwr i "ganu cloch" trwy gynnwys cyfeiriadau clir at y drefn mewn hyfforddiant ac yn nogfennaeth yr ysgol.
- sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb a osodir ar yr ysgol a'r staff ym maes amddiffyn plant trwy gynnwys oblygiadau hynny ym mhrosbectws yr ysgol.
- datblygu cysylltiadau effeithiol gyda'r asiantaethau perthnasol a chydweithio yn ôl y gofyn gyda'u hymholiadau amddiffyn plant.
- cadw cofnodion ysgrifenedig am bryderon am ddisgyblion, hyd yn oed lle nad oes rheswm i gyfeirio'r mater yn syth.
- Sicrhau y cedwir cofnodion dan glo, ac ar wahân i gofnodion addysgol y disgybl.

- dilyn y gweithdrefnau perthnasol pan fo aelod o staff neu wirfoddolwr yn wynebu honiad yn eu herbyn.
- sicrhau y dilynir arferion recriwtio diogel bob amser.

Yr ydym yn cydnabod y gall disgyblion sydd wedi eu cam drin neu sydd wedi bod yn dystion i gam driniaeth ei chael yn anodd datblygu synnwyr o hunan werth. Gallant deimlo anobaith, cywilydd neu fai. Gall ysgol fod yr unig elfen sefydlog ym mywyd y plentyn. Pan yn yr ysgol gall ymddygiad y disgybl fod yn heriol neu yn fewnblyg. Bydd yr ysgol yn ymdrech i gynnal y disgybl trwy:

- gynnwys y cwricwlwm
- ethos ysgol gyfan sy'n hyrwyddo amgylchedd diogel, cynhaliol a chadarnhaol, lle y gwerthfawrogir y disgybl fel unigolyn.
- bolisi ymddygiad ysgol sy'n anelu at gynnal disgyblion mewn perygl. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond hefyd y gwerthfawrogir hwy ac nad oes bai arnynt am unrhyw gam driniaeth.
- gynnal cyswllt gydag asiantaethau eraill sy'n darparu cynhaliach i'r disgybl.
- sicrhau y trosglwyddir gwybodaeth ar unwaith i ysgol dderbyn, pan fydd disgybl sydd â'i enw ar gofrestr amddiffyn plant yn gadael yr ysgol, a hefyd yr hysbysir gweithiwr cymdeithasol y plentyn.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol.

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr \_\_\_\_\_ *S. Snape* \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Mabwysiadwyd \_\_\_\_\_ Medi 2015 \_\_\_\_\_